# Canllaw cyflym Rheoli Fy Nghyhoeddiadau

Bydd y canllaw hwn yn dangos sut i ychwanegu eich cyhoeddiadau'n gyflym ac yn rhwydd at ORCA, storfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd.

Os nad ydych wedi defnyddio ORCA a Rheoli Fy Nghyhoeddiadau o'r blaen, chwiliwch am eich cyhoeddiadau yn ORCA cyn dechrau arni. Efallai fod rhai wedi'u hychwanegu eisoes. I weld rhestr gyflawn o'r cyhoeddiadau sydd gennych yn ORCA, ewch i dudalen Awduron Cyfredol Caerdydd a dewis eich enw o'r rhestr yn nhrefn yr wyddor. Os nad yw eich enw wedi'i restru, dylai olygu nad oes gennych gyhoeddiadau yn ORCA ar hyn o bryd.

Mewngofnodi i fewnrwyd y myfyriwr neu'r staff fel y bo'n briodol yn https://intranet.cardiff.ac.uk/cy a chwilio am **Rheoli Fy Nghyhoeddiadau.**

## Dull Ychwanegu 1: Dynodwr Gwrthrych Digidol (DOI)

**Ychwanegu DOI yw'r dull a ffefrir - dyma'r opsiwn cyflymaf a hawsaf.**

- Rhowch y Dynodwr Gwrthrych Digidol (DOI) yn y blwch a ddarperir a chlicio **Cael Cofnod**. Mae'r DOI fel arfer yn rhan o'r URL a bydd yn edrych rhywbeth fel **10.0123/acp.123**
- Os ydych am gyflwyno data cyhoeddi yn unig, cliciwch y botwm **Cyflwyno** nawr.
- Os ydych am gyflwyno'r testun cyfan, cliciwch y botwm **Dewis Ffeil** wrth ymyl *Testun Llawn.*
- Pan fyddwch wedi llwyddo i lwytho'r ffeil, bydd meysydd ychwanegol yn ymddangos ar y ffurflen: **Fersiwn Testun**, **Dyddiad Derbyn** a **Dyddiad Embargo.** Dewiswch y dyddiadau priodol yn y calendr os ydych yn eu gwybod. Os na, gadewch yn wag. **Mae angen dyddiad derbyn i gydymffurfio â REF.**
- Dewiswch **fersiwn a gyflwynwyd, fersiwn a dderbynnir** neu **fersiwn gyhoeddedig** o'r gwymplen ar gyfer fersiwn y testun. Cyflwynir **cyn-argraffiadau** dogfen ddrafft cyn adolygiad gan gymheiriaid. **Cyn-argraffiadau** yw'r ddogfen ddrafft a dderbynnir, a gywirwyd gan adolygiadau gan gymheiriaid. Bydd gan **Fersiynau'r cyhoeddwyr** hunaniaeth, logo'r cyhoeddwr, rhifau tudalennau, brandio, fformat a chynllun.
- Ar ôl llenwi cynifer o'r meysydd â phosibl, cliciwch **Cyflwyno***.* Cewch neges yn cadarnhau bod eich eitem wedi ei chyflwyno.

## Dull Ychwanegu 2: Ychwanegu Cyflym

Os nad oes DOI gan y cyhoeddiad, gallwch ddefnyddio'r tab Ychwanegu Cyflym i gofnodi'r manylion cyhoeddi sylfaenol eich hun. Nodir meysydd gorfodol â * e.e. *Awduron. Mae ffurflen cyflwyno â llaw hefyd ar gael yn y Porth Ymchwil ac mae dolen iddi o'r dudalen hon.

- Dewiswch y math o eitem o'r gwymplen. ***Erthygl*** yw'r dewis diofyn. Os nad yw **Llyfr, Adran lyfrau** neu **Gynhadledd** yn disgrifio'r cyhoeddiad yn gywir, dewiswch **Arall***.*
- Ychwanegwch awduron fel **Cyfenw, Enw (au) Cyntaf** (Smith, Jane) ac **un i bob llinell**. Pwyswch **Ychwanegu Awdur arall** i ychwanegu llinell awdur ychwanegol. Dylai enwau awduron Caerdydd cael eu cwblhau'n awtomatig, ond os na fydd hyn yn digwydd, neu

os ydynt yn awduron o sefydliad arall, teipiwch enwau i mewn â llaw a bydd staff yr ystorfa'n cwblhau'r cysylltiad yn ystod y broses adolygu.

- Os ydych chi'n ychwanegu manylion llyfrau neu adrannau o lyfrau, gallwch ychwanegu enwau golygyddion hefyd.
- Yn yr un modd â DOI, gallwch ychwanegu ffeil testun llawn hefyd. Unwaith y bydd ffeil yn cael ei hychwanegu mae **Fersiwn Testun**, **Dyddiad Embargo, a Dyddiad Derbyn** ar gael. **Ar gyfer erthyglau cyfnodolion a thrafodion cynadleddau gydag ISSN, mae angen dyddiad derbyn i gydymffurfio â REF.**
- Ar ôl llenwi cynifer o'r meysydd â phosibl, cliciwch **Cyflwyno**. Cewch neges yn cadarnhau bod eich eitem wedi ei chyflwyno.

## Dull Ychwanegu 3: Mewnforio o Web of Science

Mae'r opsiwn ychwanegu llwyth Web of Science ar gyfer data cyhoeddi wedi'i addasu i lanlwytho cyhoeddiadau o 2017 ymlaen yn unig. Os oes gennych nifer fawr o gyhoeddiadau cyn 2017 i'w hychwanegu, cysylltwch â Thîm ORCA neu'ch llyfrgellydd pwnc i gael cyngor.

- Rhowch eich cyfenw a llythrennau cyntaf eich enw i ddod o hyd i'ch cyhoeddiadau ar Web of Science. Cliciwch y botwm **Cael Cofnodion.**
- Defnyddiwch y blychau ticio ar ochr chwith y teitl i ddewis y cyhoeddiadau rydych am eu hychwanegu.
- Gellir gweld rhagor o dudalennau canlyniadau drwy glicio ar rifau'r tudalennau ar waelod y rhestr.
- Ar ôl dewis eich holl deitlau, cliciwch **Cyflwyno.**

## Fy Nghyhoeddiadau

Mae'r tab **Fy Nghyhoeddiadau** yn rhestru'ch holl gyhoeddiadau sy'n fyw yn ORCA ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â'ch proffil. Ar waelod y panel, ar yr ochr dde, gallwch ddewis allforio'r rhestr hon mewn sawl fformat.

- Yn ddiofyn, mae'r holl gyhoeddiadau a restrir yma yn cael eu hallforio i broffil gwe allanol eich ysgol. I alluogi'r proffil hwn, cysylltwch â swyddog TG neu we eich ysgol neu'ch coleg.
- I dynnu sylw at gyhoeddiadau dethol, cliciwch ar y blychau gwirio i'r chwith o'r teitlau yr ydych am eu dewis.
- Cliciwch ar Gweithredu'r Newidiadau ar waelod y ffurflen. Cofiwch ganiatáu 24 awr i unrhyw newidiadau gael eu diweddaru.

**Sylwch y bydd angen i'ch tab Cyhoeddiadau dethol gael ei alluogi fel y tab diofyn ar eich proffil gwe er mwyn i'r opsiwn hwn fod yn effeithiol. Gall eich cyswllt TG helpu gyda hyn.**

I gael cymorth pellach I ddefnyddio Rheoli Fy Nghyhoeddiadau ac ORCA, gallwch anfon ebost at dîm ystorfa'r llyfrgell yn orca@caerdydd.ac.uk, neu ein ffonio ar (029) 2087 6123